OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1182 (Cy. 267) (C. 33)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020

*Gwnaed - - - - 28 Hydref 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 2 Tachwedd 2020

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 2 Tachwedd 2020—

(a) adran 5;

(b) adran 15;

(c) adran 37;

(d) adran 39;

(e) adrannau 45 a 46;

(f) adran 67;

(g) adran 74;

(h) adran 82.

(**1**) 2018 dccc 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 2 Tachwedd 2020 at ddiben arfer pwerau

**3.**—(1) Ni ddaw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 2 Tachwedd 2020 ond at ddibenion gwneud rheoliadau—

(a) adran 16;

(b) adran 21;

(c) adran 32;

(d) adran 36;

(e) adran 54;

(f) adran 56;

(g) adran 60;

(h) adran 65;

(i) adrannau 75 i 77;

(j) adran 83;

(k) adran 85;

(l) adrannau 91(**2**) a 92;

(m) adran 95;

(n) adran 96 a pharagraff 19(1), (4) a (5)(g) ac (h) o'r Atodlen.

(2) Ni ddaw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 2 Tachwedd 2020 ond at ddibenion dyroddi neu adolygu'r cod o dan adran 4 o'r Ddeddf—

(a) adran 4(**3**);

(b) adrannau 7 ac 8;

(c) adran 47.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Ionawr 2021

**4.**—(1) Daw adrannau 61 a 62 o'r Ddeddf i rym ar 4 Ionawr 2021.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 4 Ionawr 2021 at bob diben sy'n weddill—

(a) adran 56(1);

(b) adran 56(4) i (6);

(c) adran 60.

(**2**) Mae diwygiadau i adran 91 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**3**) Mae diwygiadau i adran 4 a wnaed gan Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12), Atodlen 19, paragraff 226.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar y dyddiad gwneud

*Kirsty Williams*
28 Hydref 2020 — Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae'r darpariaethau a restrir yn erthygl 2 yn dod i rym yn llawn ar 2 Tachwedd 2020. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, darpariaethau dehongli a darpariaethau sydd fel arall yn gysylltiedig â'r pwerau hynny i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae'r darpariaethau a restrir yn erthygl 3 hefyd yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw, ond dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau, neu ddyroddi neu adolygu'r cod o dan adran 4 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 4 yn dwyn i rym ar 4 Ionawr 2021 ddarpariaethau yn y Ddeddf sy'n gysylltiedig â dynodi swyddogion cydlynu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n dwyn i rym hefyd, at bob diben sy'n weddill, ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr, y caiff awdurdod lleol sicrhau addysg neu hyfforddiant ynddynt ar gyfer plentyn neu berson ifanc.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2020.